Prifysgol Aberystwyth University 1872 | Croeso Welcome

# Croeso i Aberystwyth:
## Dy Ganllaw ar gyfer yr Wythnosau Cyntaf yn y Brifysgol



# Croeso cynnes iawn i chi i Brifysgol Aberystwyth

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at eich croesawu chi gyd i Aberystwyth y flwyddyn academaidd nesaf hon. Fel y dewch i wybod rwy'n siŵr, mae Aber yn lle arbennig iawn, ac rwy'n gobeithio y byddwch chi'n cael croeso cynnes ac yn ymgartrefu i fywyd yma yn Aber yn gyflym. Flynyddoedd lawer yn ôl, roeddwn innau hefyd yn fyfyriwr newydd yma, ac rwy'n gobeithio y cewch chithau brofiadau a fydd yn cyfoethogi ac yn newid eich bywyd, fel y cefais i. Dyma'ch lle i dyfu'n academaidd ac yn bersonol, i gyrraedd eich potensial a chreu argraff ar y byd.

Rydym wedi bod yma yn Aber ers dros 150 mlynedd, a thros y cyfnod hwnnw rydym bob amser wedi canolbwyntio ar sicrhau eich bod yn cael addysg ragorol. Byddwch yn cael eich dysgu gan academyddion sy'n arweinwyr yn eu meysydd ac a fydd yn rhannu'r syniadau a'r darganfyddiadau diweddaraf gyda chi yn eu pynciau. Byddwch hefyd yn profi'r cymorth rhagorol i fyfyrwyr, sydd wedi'i gynllunio i sicrhau eich bod yn manteisio i'r eithaf ar eich astudiaethau a'ch amser gyda ni yma yn Aberystwyth.

Cyn bo hir byddwch chi'n ymgartrefu yn eich amgylchedd newydd, wedi'ch amgylchynu gan bobl newydd, profiadau newydd a llu o gyfleoedd newydd yr wyf yn eich annog i'w cofleidio. Gall newid weithiau fod ychydig yn frawychus ond cofiwch fod lle i chi yma yn Aber. Edrych ar y tudalennau gwe hyn yw'r cam cyntaf i gael gwybodaeth am bopeth sydd ar gael i'ch helpu a'ch cefnogi wrth i chi bontio i fywyd prifysgol. Mae'r tudalennau hyn yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am weithgareddau cyn cyrraedd, gweithgareddau cynefino, a chyflwyniadau a gweithgareddau gan yr adrannau academaidd. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ymarferol ddefnyddiol fel rhestrau gwirio, mapiau a llawer mwy.

Dymunaf yn dda i chi ar gyfer eich diwrnodau a'ch wythnosau cyntaf yn Aber, ac rwy'n gobeithio eich croesawu wyneb yn wyneb pan fyddwch yn cyrraedd ym mis Medi.

**Professor Jon Timmis,**
**Vice-Chancellor**

## Cynnwys


**Eich wythnos gyntaf:**
- Rhestr Wirio

**Ymgartrefu i'r Brifysgol:**
- Cael cymorth
- Campws
- Adeiladau Adrannau Academaidd

**Ymgartrefu yn Aberystwyth:**
- Y Dref
- Symud o gwmpas
- Siopa ac Archfarchnadoedd

**Dyma dy le...**


# Map y Campws

I'ch helpu i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas y campws o'r diwrnod cyntaf, gallwch ddefnyddio ein map rhyngweithiol, ar-lein o'r campws. P'un a ydych chi'n mynd i'ch darlith gyntaf, yn chwilio am fannau astudio, neu eisiau gweld beth sydd ar gael ar y campws, mae'r map yn ei gwneud hi'n hawdd cynllunio'ch llwybr a darganfod lleoliadau allweddol.

**Map Ar-lein o'r Campws:**
www.aber.ac.uk/cy/discover-aberystwyth/maps/



## Rhestr Wirio

- Casglu eich allwedd
- Cysylltu â Wi-Fi ar y campws
- Cwblhau eich Cofrestriad ar y Cwrs
- Cofrestru gyda Meddyg Teulu
- Ymuno yn y Digwyddiadau ac yng Ngweithgareddau'r Wythnos Groeso
- Mynychu'r Sesiynau Sul
- Dod i adnabod y Campws
- Dod i adnabod y Mannau Addysgu
- Cyfarfod â'ch adran
- Cwblhau'r Hyfforddiant Caniatâd Ar-lein

**Mae mynediad i rhestr mwy manwl yma:**
www.aber.ac.uk/cy/welcome/aber-arrival/

**Os oes angen help arnoch unrhyw bryd yn ystod eich cyfnod 'Cyrraedd Aber'...**

Bydd staff wrth law drwy'r cyfnod cyrraedd ac mae gennym restr o gysylltiadau allweddol yn ein rhestr wirio fanwl



### Casglu eich allwedd

Pan fyddwch yn cyrraedd Aberystwyth, os ydych yn Neuaddau'r Brifysgol, bydd modd i chi gasglu'r allwedd i'ch llety yn eich man cyrraedd dynodedig. Bydd eich dyddiad ac amser symud i mewn penodol yn dibynnu ar eich llety, a'r slot y gwnaethoch ei archebu, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r canllawiau cyn teithio.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/accommodation/new-students/moving-in/#when-can-i-move-in

### Cysylltu â Wi-Fi ar y campws

Pan fyddwch ar y campws, gallwch gysylltu ag eduroam, rhwydwaith diwifr y Brifysgol, sydd ar gael ledled y campws a'r neuaddau preswyl. Bydd angen eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair Prifysgol Aberystwyth arnoch.

**Dysgu mwy:**
faqs.aber.ac.uk/?searchkeyword=studentwireless&language=en

### Cwblhau eich Cofrestriad ar y Cwrs

Mae Cofrestru Ar-lein yn gam hanfodol wrth ymuno â Phrifysgol Aberystwyth. Rhaid i bob myfyriwr gwblhau'r dasg Cofrestru Ar-lein trwy eu Cofnod Myfyriwr cyn y gallant gael eu cofrestru'n ffurfiol a defnyddio gwasanaethau megis amserlenni, cyllid myfyrwyr, a systemau'r brifysgol.

**Cofrestru Arlein:**
studentrecord.aber.ac.uk

### Cofrestru gyda Meddyg Teulu

Rhaid i fyfyrwyr sy'n byw yn Aberystwyth gofrestru â meddygfa leol. Mae'r broses yn syml a gellir ei chwblhau ar-lein.

**Cofrestru yma:**
www.aber.ac.uk/cy/studentservices/student-health/#registering-with-a-gp-(family-doctor)

### Ymuno yn y Digwyddiadau ac yng Ngweithgareddau'r Wythnos Groeso

Dros yr wythnos nesaf bydd amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau i chi gymryd rhan ynddynt. P'un a ydych chi'n chwilio am rywbeth hwyliog, defnyddiol, neu'r ddau, bydd digwyddiadau addas i chi.

**Edrychwch yma:**
www.aber.ac.uk/cy/welcome/events/

### Mynychu'r Sesiynau Sul

Mae'n bwysig eich bod yn mynychu un o'n Sesiynau Sul. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr newydd a fydd yn eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich amser yn y brifysgol.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/welcome/sunday-sessions/

### Dod i adnabod y Campws

Cymerwch ran yn ein taith ryngweithiol, hunan-dywysedig, o amgylch y campws. Trwy ein Her Campws digidol, gallwch ddod i adnabod eich cartref newydd ychydig yn well.

**I ddechrau, llawrlwythwch yr ap ar gyfer iOS:**
www.aber.ac.uk/cy/welcome/the-campus-quest/

### Dod i adnabod y Mannau Addysgu

Cyn i'r addysgu ddechrau, cymerwch ychydig o amser i ymgyfarwyddo â mannau addysgu'r Brifysgol. Cynhelir llawer o'ch dosbarthiadau yn ein hystafelloedd addysgu canolog, felly gall gwybod ble maen nhw eich helpu i deimlo'n fwy hyderus ac yn barod ar gyfer eich wythnos gyntaf.

**Edrychwch yma:**
www.aber.ac.uk/cy/timetable/zones/

### Cyfarfod â'ch adran

I ddysgu mwy am eich adran, a'ch cwrs, bydd angen i chi fynychu eich rhaglen Gynefino Academaidd. Bydd eich adran hefyd yn cynnal ystod o weithgareddau eraill dros y cyfnod croeso.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/welcome/academic-department/

### Cwblhau'r Hyfforddiant Caniatâd Ar-lein

Yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, rydym wedi ymrwymo i wneud ein campws yn lle mwy diogel, gan ddangos 'dim goddefgarwch' tuag at aflonyddu, troseddau casineb, cam-drin ac ymddygiad gwyliedydd. Drwy gwblhau ein hyfforddiant Caniatâd Ar-lein rydych chi'n ein helpu i gadw Aberystwyth yn Ddiogel.

**Cwblhewch yr hyfforddiant:**
https://blackboard.aber.ac.uk/ultra/organizations/_49411_1/outline

# Ymgartrefu i'r Brifysgol - Cael cymorth

Er y gall dechrau yn y brifysgol fod yn hwyl ac yn gyffrous, rydym hefyd yn deall y gall fod yn frawychus ac weithiau gall beri straen. O ganlyniad i hyn, mae gennym ystod o wahanol fathau o gymorth sydd yma i'ch helpu chi, nid yn unig yn yr wythnosau cyntaf, ond ar gyfer eich taith gyfan fel myfyriwr.

## Holi Aber

Os oes gennych gwestiwn neu bryder ac nad ydych yn siŵr â phwy i gysylltu, mae ein tîm Holi Aber yma i'ch helpu. Gallant eich cefnogi gydag ystod eang o ymholiadau – o gwestiynau am y llyfrgell a chyngor ynghylch sgiliau academaidd, i gael mynediad at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr. Os na allant ateb eich ymholiad yn uniongyrchol, byddant yn gwneud yn siŵr eu bod yn eich cyfeirio at y tîm cywir.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/askaber/





## Diogelwch y Safle

Mae tîm Diogelwch y Campws ar gael 24/7 i helpu i'ch cadw'n ddiogel yn ystod eich amser yn y brifysgol. Maent yn ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau, gallant gynnig cyngor ar gadw'n ddiogel, a gallant ddarparu cymorth gydag unrhyw bryderon lles. P'un a oes angen cymorth arnoch, eich bod eisiau rhoi gwybod am rywbeth, neu ddim ond angen sicrwydd, mae'r tîm cyfeillgar bob amser wrth law - bob dydd o'r flwyddyn.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/efr/campus-security/

## Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (Undeb Aber) yma i gynrychioli eich llais a'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich profiad fel myfyriwr. Caiff yr Undeb ei redeg gan swyddogion a etholwyd o blith y myfyrwyr, ac mae'n gweithio i sicrhau bod myfyrwyr yn hapus, yn iach ac yn cael eu grymuso, tra'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i gymryd rhan ynddynt megis clybiau, cymdeithasau, gwirfoddoli a digwyddiadau. Gall Undeb Aber hefyd roi cyngor a chefnogaeth annibynnol i chi.

**Dysgu mwy:**
www.abersu.co.uk/



## Y Swyddfa Llety

Mae ein Tîm Swyddfa Llety yma i'ch cefnogi trwy gydol eich amser yn llety'r brifysgol. P'un a oes gennych gwestiynau am eich ystafell, eich contract, neu fywyd o ddydd i ddydd, mae'r tîm yn barod i helpu.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/accommodation/about-us/#accommodation-office

## Bywyd Preswyl

Mae'r Tîm Bywyd Preswyl yma i'ch cefnogi wrth i chi fyw yn llety'r Brifysgol, gan eich helpu i ymgartrefu a theimlo'n rhan o gymuned y campws. Mae'r tîm yn cynnwys staff a Chynorthwywyr Preswyl hyfforddedig, ac mae'r tîm yn darparu cymorth gan gymheiriaid, arweiniad ar fyw gydag eraill, a chymorth gydag unrhyw faterion megis anghytundebau rhwng myfyrwyr mewn fflat neu addasu i fywyd prifysgol. Maent hefyd yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol a digwyddiadau i'ch helpu i gysylltu ag eraill a manteisio i'r eithaf ar eich profiad myfyriwr.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/accommodation/current-students/living-residences/res-support/about/



## Lles

Mae'r Tîm Lles yma i gefnogi eich iechyd meddwl a'ch lles cyffredinol yn ystod eich cyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth. Maent yn cynnig gofod diogel, croesawgar ac anfeirniadol lle gallwch siarad am unrhyw beth sy'n effeithio ar eich astudiaethau neu eich bywyd personol.

Mae'r cymorth yn cynnwys apwyntiadau lles un-i-un, cyngor ar gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd neu arbenigol, ac ystod o adnoddau ar-lein.

Gallwch gael mynediad at gymorth drwy lenwi'r ffurflen gofrestru lles ar-lein trwy wefan y Gwasanaethau i Fyfyrwyr, ac ar ôl hynny bydd y Tîm Lles yn cysylltu â chi.

**Dysgu mwy:**
support.aber.ac.uk

## Wisdom Wellbeing

Mae Wisdom Wellbeing yn wasanaeth cymorth cyfrinachol am ddim sydd ar gael i holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth 24/7. Gall y gwasanaeth helpu gydag ystod eang o bryderon gan gynnwys iechyd meddwl, straen, perthnasoedd, a phryderon ariannol, ochr yn ochr â darparu adnoddau hunangymorth megis myfyrdodau dan arweiniad.

Gallwch gael mynediad at Wisdom Wellbeing ar unrhyw adeg trwy'r wefan neu'r ap.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/studentservices/wellbeing/health-assured/

## Gofal Iechyd Rhywiol

Mae'r Ganolfan Croesawu Myfyrwyr ac Adeilad Undeb y Myfyrwyr yn cynnig ystod o adnoddau lles ac iechyd rhywiol am ddim, atalwyr sbeicio, condomau, profion beichiogrwydd, a phecynnau profi am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae'r eitemau hyn ar gael i'w cymryd pryd bynnag y mae eu hangen arnoch, heb unrhyw gwestiynau. Os hoffech ragor o gyngor, cefnogaeth neu brofion, gallwch hefyd gael mynediad at gymorth am ddim trwy'r Clinig Iechyd Rhywiol lleol. Gellir trefnu apwyntiadau drwy ffonio 01267 248674.

## Gofal Iechyd

Ar gyfer pryderon iechyd nad ydynt yn rhai brys, gallwch drefnu apwyntiad gyda'ch meddyg teulu. Os oes angen gofal meddygol brys arnoch ar gyfer salwch neu anaf difrifol, mae Ysbyty Bronglais, sydd wedi'i leoli ar Riw Penglais, yn darparu gwasanaethau gofal iechyd brys.

**Dysgu mwy:**
hduhb.nhs.wales/healthcare/hospitals-and-centres/accident-and-emergency/

## Hygyrchedd

Mae'r Tîm Hygyrchedd a Chynhwysiant yma i sicrhau eich bod yn cael mynediad llawn at fywyd y brifysgol ac yn manteisio i'r eithaf ar hynny. Maent yn cynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i fyfyrwyr anabl, y rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, ac unigolion niwrowahanol, yn ogystal â myfyrwyr a allai fod angen cymorth ychwanegol megis unigolion sy'n gadael gofal neu fyfyrwyr sydd wedi'u dieithrio oddi wrth eu teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, addasiadau rhesymol, trefniadau ar gyfer yr arholiadau, a chymorth astudio arbenigol.


**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/studentservices/accessibility/




## Y Ddesg Wasanaeth TG

Mae'r Ddesg Wasanaeth TG ar gael i ddarparu cymorth a chyngor wrth gyrchu a defnyddio'r holl wasanaethau TG. Mae'r rhain yn cynnwys enwau defnyddwyr a chyfrineiriau, e-bost, Cardiau Aber, mynediad i'r rhyngrwyd, storio ffeiliau, cyfrifiaduron a meddalwedd.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/its/contactus/





## Cyngor ac Arian

Mae'r Tîm Cyngor ac Arian yma i'ch helpu i reoli eich cyllid a gwneud penderfyniadau gwybodus yn ystod eich amser yn y brifysgol. Maent yn cynnig arweiniad ar gyllid myfyrwyr, cyllidebu, ac ariannu eich astudiaethau, yn ogystal â chefnogaeth gyda materion megis oedi mewn cyllid neu gael mynediad at gymorth ariannol ychwanegol megis y Gronfa Caledi Myfyrwyr. Gall y tîm hefyd roi cyngor ar opsiynau academaidd os yw pryderon ariannol yn effeithio ar eich astudiaethau.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/studentservices/money/

## Cyllid

Mae'r Tîm Cyllid yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i'ch helpu i ddeall y costau sy'n gysylltiedig ag astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth a sut i ariannu eich astudiaethau. Mae hyn yn cynnwys manylion am ffioedd dysgu, benthyciadau myfyrwyr, a chyfleoedd cyllido ychwanegol megis ysgoloriaethau a bwrsariaethau. Gallant eich helpu i gynllunio ymlaen llaw a sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch cwrs, fel y gallwch reoli eich cyllid yn hyderus trwy gydol eich amser yn y brifysgol.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/fees/

# Ymgartrefu i'r Brifysgol - Campws

## Caffis a Bwytai

Mae gennym sawl lleoliad ar y campws, gan gynnwys y Neuadd Fwyd, CaffiBach, a Siop a Bar Undeb y Myfyrwyr. Mae ein holl gaffis a bwytai yn cynnig detholiad eang o fwyd a diod sy'n bodloni pob gofyniad dietegol gan gynnwys bwyd heb gynnyrch llaeth, bwyd llysieuol, figan, a bwyd heb glwten.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/hospitality/

## Canolfan y Celfyddydau

Mae Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn ganolfan arobryn a blaenllaw ar gyfer diwylliant, creadigrwydd ac adloniant. Dyma'r lle delfrydol i wylio sioe fyw, gwylio ffilm newydd neu arbenigol, neu fwynhau coffi a chacen gyda ffrindiau.

**Dysgu mwy:**
www.aberystwythartscentre.co.uk/

## Canolfan Chwaraeon

Mae ein Canolfan Chwaraeon ar y campws yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau gan gynnwys pwll nofio, Sawna Nordig, Cae 3G, a hyd yn oed wal ddringo. Mae ein campfa yn cynnig yr offer ffitrwydd gorau ar y farchnad, gyda 130 o orsafoedd hyfforddi gan gynnwys beiciau, peiriannau rhwyfo, a melinau traed. Cynigir hefyd amrywiaeth o ddosbarthiadau. Bydd pob myfyriwr sy'n aros yn llety'r Brifysgol yn cael mynediad i'r gampfa a'r holl ddosbarthiadau am ddim.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/





## Gofodau Ffydd

Rydym yn cynnig mannau aml-ffydd pwrpasol ar draws y campws lle gall myfyrwyr a chymdeithasau ffydd o bob cred weddïo, myfyrio, cwrdd, neu ymlacio. Ar agor bob dydd, mae'r mannau croesawgar hyn yn darparu amgylchedd cynhwysol a niwtral sy'n dathlu ac yn cefnogi amrywioldeb grefyddol ein cymuned ar y campws.

Gall myfyrwyr hefyd gael mynediad at ystod eang o fannau ffydd a mannau addoli ledled yr ardal leol.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/equality/inclusivespaces/faith-provision/

## Mannau Cymdeithasol

Ochr yn ochr â'n caffis a'n bwytai, mae gennym hefyd nifer o fannau cymdeithasol 24/7 ac ystafelloedd y gellir eu harchebu ar draws y campws y gall unrhyw un sy'n byw yn llety'r brifysgol eu defnyddio.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/accommodation/current-students/living-residences/bookable-room/

## Y Llyfrgelloedd

Llyfrgell Hugh Owen yw prif lyfrgell y Brifysgol. Mae'n cynnwys tri llawr sydd ag amrywiaeth eang o adnoddau i'ch helpu gyda'ch astudiaethau. Mae'r llyfrgell hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a mannau astudio gan gynnwys ystafelloedd astudio unigol a grŵp y gellir eu harchebu.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/library/


## Mannau Astudio

Yn ogystal â'r llyfrgelloedd, mae gennym amrywiaeth o fannau astudio eraill y gallwch eu defnyddio, gan gynnwys y Felin Drafod a'r Weithfan, sydd wedi'i leoli yng nghanol y dref ger yr orsaf drenau.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/discover-aberystwyth/life-on-campus/student-services-learning-facilities/




# Ymgartrefu i'r Brifysgol - Adeiladau Adrannau Academaidd




## Yr Ysgol Gelf (Edward Davies)

Mae lleoliad yr Ysgol Gelf, neu Adeilad Edward Davies, yn agos at Gampws Penglais a thuag at ganol y dref. Mae'n gartref i Gelf a Ffotograffiaeth.




## Carwyn James

Mae Adeilad Carwyn James yn gartref i Wyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff.




## Hugh Owen

Yn Adeilad Hugh Owen, ceir Llyfrgell Hugh Owen a'r Adrannau Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Y Gyfraith a Throseddeg ac Ieithoedd Modern. Mae Ysgol Fusnes Aberystwyth hefyd wedi'i lleoli yma yn ogystal â darlithfeydd A12 ac A14.




## Gwendolen Rees/Edward Llwyd

Mae adeilad Gwendolen Rees ar Gampws Penglais yn gartref i Adran y Gwyddorau Bywyd, ac mae'n cynnwys caffi CAFFIBach. Drws nesaf mae adeilad Edward Llwyd sy'n cynnwys labordai ac ystafelloedd addysgu..




## Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Mae'r Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn gartref i'r Adran Gwleidyddiaeth a Hanes Rhyngwladol a Hanes Cymru.



## Llandinam

Mae Adeilad Llandinam yn cynnwys yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear a'r Adran Gyfrifiadureg.




## P5

Wedi'u lleoli yn Adeilad P5 mae'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth, yr Adran Seicoleg a'r Ysgol Addysg.




## Parry Williams

Mae adeilad Parry Williams yn gartref i'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ac Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.



## Gwyddorau Ffisegol

Mae Adeilad y Gwyddorau Ffisegol yn gartref i'r Adrannau Peirianneg, Mathemateg a Ffiseg, yn ogystal â Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol.



## Y Ganolfan Addysg Milfeddygaeth

Mae'r Ganolfan Addysg Milfeddygaeth yn gartref i Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth.



# Ymgartrefu yn Aberystwyth - Y Dref

Mae Aberystwyth, y cyfeirir ati hefyd gan bobl leol fel 'Aber', yn dref farchnad glan môr hanesyddol sy'n cynnwys cymuned amrywiol a chroesawgar. Mae gan y dref fach hon, a'r ardal gyfagos, gymaint i'w gynnig.

## Tref llawn cymeriad

Mae Aberystwyth yn dref lle mae harddwch naturiol a hanes yn cwrdd. Mae ei adeiladau Fictoraidd lliwgar yn eistedd yn osgeiddig o fewn y dirwedd, gan greu lleoliad sy'n teimlo'n fywiog ac yn unigryw Gymreig.
Calon y dref yw'r promenâd eiconig 2km, lle mae myfyrwyr, pobl leol ac ymwelwyr yn dod at ei gilydd. P'un a ydych chi'n cerdded, beicio, neu'n oedi i fwynhau'r olygfa, mae ymdeimlad cryf o gysylltiad a chymuned sy'n gwneud i Aberystwyth deimlo fel 'adre' o'r cychwyn cyntaf.

## Byw ar yr Arfordir

Gyda thri o draethau hardd – Traeth y Gogledd, Traeth y De, a Than-y-Bwlch – nid ydych chi byth yn bell o'r dŵr. P'un a ydych chi'n mynd am dro heddychlon ar hyd y lan, yn gwylio'r dolffiniaid yn y bae, neu'n ymlacio gyda ffrindiau, daw'r arfordir yn rhan o'ch bywyd bob dydd.
Yn ystod misoedd yr haf, daw glan y môr yn fyw gyda machludau aur y gellir eu mwynhau o amgylch coelcerth neu farbeciw ar y traeth gyda ffrindiau.

## Lleoedd i'w gweld

Mae Aberystwyth yn gyfoethog o ran ei diwylliant a'i hanes. O Lyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n gartref i rai o gasgliadau pwysicaf y wlad, i adfeilion hanesyddol y castell, a'r Hen Goleg trawiadol, mae'r dref yn cynnig cyfleoedd di-ri i archwilio.

Ewch ar Reilffordd y Graig i fyny Craig Glais i weld golygfeydd panoramig ar draws Bae Ceredigion, cerddwch ar hyd yr harbwr, neu ymlaciwch wrth y bandstand ar lan y môr.

Y tu hwnt i'r dref, mae'r tirweddau cyfagos yn cynnig mwy o antur, o deithiau rheilffordd godidog i fynyddoedd a rhaeadrau cyfagos sy'n aros i chi eu darganfod.

## Chwaraeon ac Anturiaethau Awyr Agored

Wedi'i hamgylchynu gan arfordiroedd a chefn gwlad, mae Aberystwyth yn lleoliad perffaith ar gyfer antur yn yr awyr agored. P'un a ydych chi'n syrffio, padlfyrddio, neu gaiacio ar hyd yr arfordir, neu ar y tir yn heicio a beicio, mae yna ffyrdd di-ri o archwilio a chadw'n heini.

Mae'r Brifysgol yn cynnig ystod eang o glybiau chwaraeon a chymdeithasau sy'n ymroddedig i weithgareddau awyr agored, gan gynnwys heicio ac ogofa. P'un a ydych chi'n parhau â diddordeb presennol neu'n rhoi cynnig ar rywbeth newydd, mae'r cymunedau hyn yn ei gwneud hi'n hawdd cwrdd â phobl o'r un anian i rannu'r anturiaethau hyn gyda nhw.

## Dinas Llên UNESCO gyntaf Cymru

Yn 2025 enwyd Aberystwyth yn Ddinas Llên UNESCO gyntaf Cymru, gan gydnabod ei threftadaeth lenyddol gyfoethog, ei diwylliant dwyieithog bywiog, a'i thraddodiad parhaol o adrodd straeon, barddoniaeth ac ysgrifennu creadigol. Mae'r dref yn gartref i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ac mae wedi bod yn ganolfan i awduron, cyhoeddwyr a gwyliau llenyddol ers amser maith.

O farddoniaeth wedi'i ysgythru ar hyd y promenâd i ddigwyddiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn, mae llenyddiaeth wedi'i phlethu i fywyd bob dydd, gan greu amgylchedd ysbrydoledig i fyfyrwyr ei archwilio, ei greu a'i gysylltu.

## Bywyd Nos Diogel a Bywiog

Gyda balchder mawr yn ei statws Baner Borffor, mae Aberystwyth yn cyfuno sîn gymdeithasol fywiog gydag ymdeimlad cryf o ddiogelwch a chymuned.
Mae rhywbeth at ddant pawb – o berfformiadau a digwyddiadau yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, i nosweithiau cwis a sesiynau karaoke yn un o'r bariau a thafarndai ar draws y dref.

P'un a ydych chi'n mwynhau cerddoriaeth fyw, nosweithiau comedi, neu nosweithiau hamddenol gyda ffrindiau, mae'r awyrgylch bob amser yn gyfeillgar, yn gynhwysol ac yn hamddenol.

Mae Aberystwyth yn fwy na lle i astudio - mae'n ffordd o fyw. Gan gyfuno uchelgais academaidd â sîn ddiwylliannol fywiog, ymdeimlad cryf o gymuned, ac amgylchedd naturiol godidog, mae'n lle sy'n eich annog i archwilio, cysylltu a thyfu.

Yma mae pob diwrnod yn cynnig cyfleoedd newydd i ddarganfod diddordebau newydd, meithrin cyfeillgarwch, a chreu atgofion gydol oes.



# Ymgartrefu yn Aberystwyth - Siopa ac Archfarchnadoedd

Mae Aberystwyth yn cynnig cymysgedd gwych o fanwerthwyr y stryd fawr a siopau annibynnol. Er y byddwch chi'n dod o hyd i lawer o frandiau cyfarwydd yng nghanol y dref a'r cyffiniau, mae edrych yn siopau annibynnol unigryw'r dref yn ffordd wych o ddarganfod cynhyrchion unigryw, crefftau lleol, a gemau cudd.

## Siopa

Mae Aberystwyth yn ganolbwynt siopa ar gyfer ardal eang o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, felly mae nifer o'r prif siopau cadwyn yng nghanol y dref neu gerllaw. Fodd bynnag, y peth gorau am siopa yn Aberystwyth yw'r amrywiaeth eang o siopau annibynnol.

Mae siopau fel arfer ar agor 09.00-17.30 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, er bod rhai archfarchnadoedd ar agor rhwng 07.00-22.00 ac mae un neu ddau le ar agor 24 awr. Mae llawer o siopau hefyd ar agor ar ddydd Sul am gyfnod byrrach.

## Gostyngiadau i Fyfyrwyr

Mae llawer o fanwerthwyr y stryd fawr, yn ogystal â nifer o siopau annibynnol Aberystwyth, yn cynnig gostyngiadau i fyfyrwyr, felly mae bob amser yn werth gofyn cyn i chi brynu. Er mwyn cael mynediad at y gostyngiadau hyn, efallai y bydd rhai siopau yn gofyn am weld eich cerdyn Myfyriwr Prifysgol Aberystwyth, tra bod eraill yn derbyn llwyfannau disgownt myfyrwyr fel UniDAYS, Student Beans, neu TOTUM.

Gallai gwiriad cyflym cyn i chi dalu eich helpu i arbed arian ar bopeth o ddillad a thechnoleg, i fwyd, adloniant, a hanfodion bob dydd.

## Siopau elusen

Mae Aberystwyth yn gartref i amrywiaeth wych o siopau elusen lle gallwch ddod o hyd i eitemau ail-law o ansawdd uchel wrth gefnogi achosion ystyrlon. Mae siopa yn y siopau hyn yn cynnig sawl mantais:

- **Fforddiadwyedd**
  Gallwch brynu eitemau ardderchog, wedi'u gwneud yn dda am ffracsiwn o'r pris y byddech chi'n ei dalu mewn siopau manwerthu rheolaidd.
- **Cefnogi Achosion Da**
  Mae pob pryniant yn helpu i ariannu gwaith yr elusen, boed hynny'n cefnogi cymunedau lleol, darparu gwasanaethau hanfodol, neu gyfrannu at fentrau cymdeithasol ehangach.
- **Darganfyddiadau Unigryw**
  Mae siopau elusen yn llawn trysorau unigryw, gemau o dras, a darganfyddiadau annisgwyl. Does wybod beth y dewch o hyd iddo.
- **Manteision i'r Amgylchedd**
  Mae dewis prynu'n ail-law yn lleihau gwastraff ac yn lleihau'r galw am gynnyrch newydd, gan helpu i leihau effaith amgylcheddol gweithgynhyrchu.
- **Cyfrannu Rhoddion**
  Os oes gennych eitemau ail-law nad ydych eu heisiau mwyach, mae eu rhoi i siop elusen leol yn rhoi bywyd newydd iddynt ac yn cefnogi'r gymuned yn y broses.

## Siopa Bwyd

Gallwch brynu cynnyrch traddodiadol a lleol, gan gynnwys cynnyrch organig a fegan ym Marchnad Ffermwyr Aberystwyth ar ddydd Sadwrn cyntaf a thrydydd dydd Sadwrn pob mis. Mae hefyd siopau cigydd a siopau bara annibynnol a gwerthwr pysgod yn y dref.



## Archfarchnadoedd

Mae Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth o archfarchnadoedd i gyd-fynd â gwahanol gyllidebau ac anghenion siopa. Mae Lidl, Iceland, a Tesco wedi'u lleoli'n agos at yr orsaf drenau ac o fewn cyrraedd hawdd i ganol y dref. I fyfyrwyr sy'n byw ar Riw Penglais, mae Archfarchnad CK's yn siop leol ddefnyddiol ger neuaddau preswyl y Brifysgol.

P'un a ydych chi'n siopa bwyd am yr wythnos, yn nôl hanfodion bob dydd, neu'n chwilio am opsiynau rhatach, mae digonedd o ddewisiadau ar gael ledled y dref.

**Dyma ganllaw cyflym i'r hyn y mae rhai o archfarchnadoedd Aberystwyth yn ei gynnig:**


| Siop | Prisio | Kosher | Halal | Llysieuwr |
|---|---|---|---|---|
| B&M | £ | | | |
| Home Bargains | £ | | | ✓ |
| Lidl | £ | | ✓ | ✓ |
| Tesco | ££ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Morrisons | ££ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Iceland | ££ | | ✓ | ✓ |
| Spar | £££ | | | ✓ |
| M&S | £££ | | ✓ | ✓ |



# Ymgartrefu yn Aberystwyth - Symud o gwmpas

Mae Aberystwyth yn dref fechan lle mae'r rhan fwyaf o leoedd yn hawdd eu cyrraedd ar droed neu ar feic. Mae yna hefyd fysiau lleol sy'n rhedeg yn rheolaidd ledled y dref a'r ardal gyfagos, gan ei gwneud hi'n hawdd mynd o un lle i'r llall. .

**Traws Cymru:**
https://traws.cymru/cy




Mae tacsis yn opsiwn defnyddiol arall, yn enwedig pan fyddwch chi'n cario bagiau trwm ar ôl siopa. Gallant fod yn ddrud, ond mae rhannu'r daith gyda ffrindiau yn helpu i leihau'r gost.

Wrth ddefnyddio tacsi, mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod yn:

- Defnyddio tacsis trwyddedig - Defnyddiwch dacsis sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor Sir Ceredigion yn unig. Dylai trwydded yrru a ffotograff o'r gyrrwr gael eu harddangos yn glir y tu mewn i'r cerbyd. .
- Cadarnhau'r pris - Gofynnwch am bris y daith cyn i chi gychwyn a thalu ar ôl i chi gyrraedd eich cyrchfan.
- Eistedd yn y cefn - Dewiswch sedd y tu ôl i'r gyrrwr ar gyfer diogelwch a chysur ychwanegol.

Ar gyfer teithio pellter hirach, mae gan Aberystwyth gyswllt da â gwasanaethau trên a bysiau National Express, sy'n cynnig cysylltiadau cyfleus ledled Cymru a gweddill y DU.

Gellir dod o hyd i wefannau cwmnïau Trafnidiaeth Lleol yma:

**National Express:**
timetables.nationalexpress.com/routes/NX/409/London-Aberystwyth_University/O

**Trafnidiaeth Cymru:**
www.trc.cymru



# Ymgartrefu yn Aberystwyth - Cael yr wybodaeth ddiweddaraf

**Cysylltwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol trwy ddilyn ein tudalennau Instagram a Facebook @prifysgol.aberystwyth a'n tudalen TikTok @prifysgol_aberystwyth**

**Gallwch ddilyn tudalennau Instagram a Facebook Llety'r brifysgol @pauaccommoffice**

Maen nhw'n postio digwyddiadau ar gyfer myfyrwyr sy'n byw mewn llety myfyrwyr ac yn rhoi gwybod am y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau llety

**I gael gwybodaeth am BywydAberLife, sef Gwasanaeth Bywyd Preswyl Llety Prifysgol Aberystwyth, edrychwch ar Link-Tree isod**

Gallwch gael gafael ar dudalennau gwe, digwyddiadau amrywiol, y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a mwy..

**Dysgu mwy:**
https://linktr.ee/bywydaberlife?utm_source=qr_code

**Dilynwch Undeb Aber (Undeb y Myfyrwyr) @undebaber ar Instagram**

Dewch o hyd i'r digwyddiadau, y cymdeithasau a'r cyfleoedd i chi gymryd rhan ynddyn nhw.

**Dysgwch am y Cyfleoedd Byd-eang sydd ar gael yn @aber_globalopps ar Instagram**

Cewch ragor o wybodaeth am gyfleoedd i astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor fel rhan o'ch gradd.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth yng Nghylchlythyr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr a Gwasanaethau'r Llyfrgell:**

www.aber.ac.uk/cy/library/news/newsletter/

**Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd swyddi cyffrous yn @gyrfaoeddaber ar Instagram**

Negeseuon rheolaidd am swyddi gwag newydd ar gyfer myfyrwyr presennol a graddedig.

**Dilynwch HoliAber @holi_aber ar Instagram ac @holiaber ar Facebook**



# Dyma dy Le...

I gael cipolwg ar yr hyn sydd gan Aberystwyth a'r gymuned i'w gynnig, rydym wedi tynnu sylw at rai o'r lleoedd allweddol i chi eu harchwilio a mwynhau byd natur a gweld bywyd gwyllt...

## **Dyma dy Le** i archwilio




**Llwybr arfordir Ceredigion**
///staples.suggested.vine



**Castell Aberystwyth a'r Hen Goleg**
///newlywed.admiral.florists



**Twyni Ynyslas**
///tentacles.wades.violinist



**Cofeb Wellington, Pendinas**
///warthog.cards.origins




**Rhaeadrau Pontarfynach**
///hardens.draining.noun

## **Dyma dy Le** i weld natur a bywyd gwyllt



**Murmur drudwen dros y Pier Brenhinol**
///reference.stems.firework



**Bwydo'r Barcutiaid ym Mwlch Nant yr Arian**
///follow.playfully.clasping



**Dolffiniaid ym Mae Ceredigion**
///staples.modem.below

## **Dyma dy Le** i gymryd rhan mewn traddodiadau lleol



**Cerdded neu chymryd Rheilffordd y Clogwyni i fyny Rhiw Craig-glais**
///chapels.person.overtones



**Gwylio machlud Traeth y Gogledd**
///removers.dwarf.sensibly



**Cicio'r bar ar y Prom**
///sprinting.shuttered.causes



**Trên stêm i Bontarfynach**
///protected.factoring.factoring



**Coelcerth ar Draeth y De**
///arrow.something.conquest




## **Dyma dy Le** ar gyfer diwylliant, digwyddiadau a gweithgareddau



**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
///being.hats.mango



**Cyngerdd yng Nghanolfan y Celfyddydau**
///intruded.brambles.remainder




**Gŵyl Gomedi Aberystwyth**
///intruded.brambles.remainder



**Parkrun**
///tilts.older.stoops



**Cystadleuaeth rhwyfo ar hyd Bae Ceredigion**
///staples.modem.below

# Cysylltiadau Hanfodol

**Llinell Gymorth 24/7 y Brifysgol**

01970 622900

**Canolfan Chwaraeon**

chwaraeon@aber.ac.uk 01970 622280

**Cofrestrfa Academaidd**

ugfstaff@aber.ac.uk pgsstaff@aber.ac.uk
01970 622290

**Diogelwch Bob Awr o'r Dydd**

ssestaff@aber.ac.uk 01970 622900

**Gofod Ffydd**

cydraddoldeb@aber.ac.uk 01970 628424

**Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr**

cynghorydd-myfyrwyr@aber.ac.uk
01970 621761 or 01970 622087

**Gwasanaeth Gyrfaoedd**

gyfaoedd@aber.ac.uk 01970 622378

**Gwasanaethau Llyfrgell**

llyfrgell@aber.ac.uk 01970 622020

**Gwasanaethau T.G.**

tg@aber.ac.uk 01970 622400

**HoliAber**

ask@aber.ac.uk 01970 622020

**Llety**

llety@aber.ac.uk 01970 622984

**Undeb Aberystwyth**

union@aber.ac.uk 01970 621700